**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 15 Rhagfyr 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 4 Ionawr 2020 |

**PWNC**

Eitem 6:CYNLLUN GWEITHREDU TAI

**PENDERFYNIAD**

a) Cymeradwywyd y prosiectau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Tai ar gyfer y cyfnod o hyn tan 2026/27.

b) Cymeradwywyd ymhellach y dyraniad a argymhellwyd ar gyfer y prosiectau unigol, o fewn yr amlen ariannol sydd eisoes wedi ei gymeradwyo ar gyfer y maes gwaith hwn, a hyd at gyfanswm yr adnoddau fydd eisoes wedi'u casglu.

c) Er mwyn caniatáu hyblygrwydd wrth ymateb i newidiadau yn y farchnad dai dros amser, awdurdodwyd y Pennaeth Tai ac Eiddo, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet Tai ac Eiddo a'r Pennaeth Cyllid, i amrywio'r union ddyraniad ar gyfer prosiectau unigol wrth i wybodaeth am gostau prosiectau unigol, a'r galw am fathau gwahanol o gefnogaeth, ddod yn fwy cadarn dros amser.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf 2019, mabwysiadodd y Cyngor Strategaeth Tai sy'n nodi gweledigaeth o:
*"Sicrhau fod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd".*

Pwrpas yr adroddiad hwn oedd amlinellu sut y bydd y Cyngor yn mynd ati i gyfarch yr amcanion a nodwyd yn y Strategaeth tai rhwng nawr a 2026/27.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol a’r Aelod Lleol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 15 Rhagfyr 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 4 Ionawr 2020 |

---

**PWNC**

Eitem 7:GWAITH YMCHWIL TAI GWYLIAU

---

**PENDERFYNIAD**

Yn wyneb yr angen i gael gwell rheolaeth ar dai sydd yn cael eu tynnu allan o'r cyflenwad sydd ar gael i bobl leol, a thrwy hynny i roi buddiannau trigolion lleol yn gyntaf, cymeradwywyd y gwaith ymchwil i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac y dylid:

a) Galw ar y Llywodraeth ar fyrder i efelychu'r hyn sydd yn digwydd yn yr Alban a diwygio'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) er mwyn cynnwys dosbarth defnydd ychwanegol ar gyfer llety gwyliau tymor byr. Byddai hynny yn ei dro yn caniatáu i awdurdodau adnabod 'ardaloedd rheoli' lle byddai'n ofynnol derbyn hawl cynllunio ar gyfer newid defnydd tŷ preswyl i'w ddefnyddio fel llety gwyliau tymor byr o fewn yr 'ardal rheoli' penodedig.
b) Er mwyn cynorthwyo i gadw rheolaeth dylid hefyd galw am gyflwyno cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer llety gwyliau tymor byr fyddai'n gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol ei weithredu.
c) Tra byddai'r uchod yn cynorthwyo'r Cyngor i gael gwell rheolaeth ar dai sy'n cael eu defnyddio at ddibenion gwyliau, ni fyddai modd osgoi/rheoli tai yn cael eu troi yn ail gartrefi (oni bai am y rhai sydd yn cael eu gosod yn achlysurol/parhaol). Er mwyn sicrhau fod gan y Cyngor y modd ariannol i helpu i wneud yn iawn am y diffygion yn y cyflenwad y byddai hynny yn ei greu, ein bod yn galw ar y Llywodraeth i newid ei safiad ac i weithredu ar fyrder i newid y Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol fel bod unrhyw dŷ annedd sydd ddim yn brif neu unig gartref i unigolyn (boed yn ail gartref neu'n dŷ a ddefnyddir at ddibenion llety gwyliau tymor byr) yn cael ei ddiffinio fel tŷ annedd er pwrpas trethu (a thrwy hynny yn talu unrhyw bremiwm Treth Cyngor a benderfynir arno'n lleol). Fe fyddai unrhyw lety gwyliau tymor byr sydd wedi derbyn hawl cynllunio pwrpasol ar gyfer y defnydd hynny yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer talu Treth Busnes Annomestig.
d) Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Adran Amgylchedd mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet i ystyried sut y gellir defnyddio'r gwaith ymchwil yng nghyd-destun y fframwaith bolisi cynllunio lleol.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

---

Dros y blynyddoedd diwethaf mae pryderon mawr wedi codi ynglŷn â’r nifer o unedau preswyl a ddefnyddir ar gyfer llety gwyliau. Mae’n debyg fod poblogrwydd Cymru fel cyrchfan gwyliau, y defnydd o lety gwyliau fel buddsoddiad ariannol, gallu pobl i weithio o adref a dyfodiad y rhyngrwyd a llwyfannau marchnata fel Airbnb wedi cyfannu’n sylweddol a'r twf diweddar yn y niferoedd o unedau preswyl sydd yn cael ei defnyddio fel llety gwyliau.

Yn naturiol mae yna effeithiau negyddol yn gysylltiedig â’r cynnydd mewn nifer o dai gwyliau, gyda galw cynyddol yn wleidyddol, gan fudiadau ynghyd a phreswylwyr lleol ar gyfer gwell rheolaeth o unedau preswyl ar gyfer defnydd gwyliau.

Ym mis Gorffennaf 2019 comisiynodd y Cabinet waith ymchwil ar ran y Cyngor yn benodol ymwneud a’ ardrawiad cartrefi gwyliau yng nghyd-destun Gwynedd, yn ogystal â chyd-destun ehangach cenedlaethol. Mae’r penderfyniad yn cynrychioli ymateb y Cabinet i’r canfyddiadu.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a Pwyllgor Craffu Cymunedau â’r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 15 Rhagfyr 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 4 Ionawr 2020 |

**PWNC**

Eitem 8:ARDAL GWELLA BUSNES CAERNARFON

**PENDERFYNIAD**

- Nodwyd fod y Cynnig Ardal Gwella Busnes (AGB) a dogfennau atodol gan Gwmni Ardal Gwella Busnes Caernarfon wedi eu derbyn gan y Cyngor a'u bod yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau;
- Fod y Cabinet yn cyfarwyddo'r Swyddog Canlyniadau i gynnal pleidlais AGB Caernarfon;
- Cymeradwywyd trefniadau a'r goblygiadau ariannol a nodir yn Rhan 3 o'r adroddiad;
- Dirprwyo'r hawl i Aelod Cabinet Economi i bleidleisio ar ran yr Awdurdod ym mhleidlais yr AGB.
- Os yw'r bleidlais yn llwyddiannus yng Nghaernarfon, ac yn unol â Rheoliadau Ardal Gwella Busnes (Cymru) 2005, dirprwyo hawl i Benaethiaid Gwasanaethau Economi, Amgylchedd, Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyfreithiol a Chyllid i gymeradwyo'r fersiwn derfynol o'r Cytundeb Ymarferol a'r Cyntundeb Gwaelodlin a sicrhau fod y trefniadau cyfreithiol yn cael eu cwblhau'n gywir.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Rheoliadau Ardal Gwella Busnes (Cymru) 2005 yn nodi fod angen i awdurdodau lleol awdurdodi'r broses o gynnal pleidlais Ardal Gwella Busnes. Mynegwyd yn unol â chyfansoddiad y Cyngor, y Cabinet sydd yn gyfrifol am awdurdodi hyn.

Mae gan awdurdodau lleol yr hawl feto os yw'n ystyried y byddai cynigion AGB yn debygol o wrthdaro'n sylweddol gyda pholisïau presennol yn gosod baich ariannol ar drethdalwyr neu fod baich yr alldoll yn rhy uchel. Fodd bynnag, cefnogwyd y bwriad o gynnal pleidlais oherwydd bod cynnig AGB Caernarfon yn ymateb i heriau sydd wedi eu hadnabod gan y gymuned fusnesau ac y gallai ddenu buddsoddiadau ychwanegol i uchafu cynnig a phroffil Caernarfon.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 15 Rhagfyr 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 4 Ionawr 2020 |

**PWNC**

Eitem 9:ARDAL GWELLA BUSNES BANGOR

**PENDERFYNIAD**

- Nodwyd fod y Cynnig Ardal Gwella Busnes (AGB) a dogfennau atodol gan Gwmni Ardal Gwella Busnes Bangro wedi eu derbyn gan y Cyngor a'u bod yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau;
- Fod y Cabinet yn cyfarwyddo'r Swyddog Canlyniadau i gynnal pleidlais AGB Bangor;
- Cymeradwywyd trefniadau a'r goblygiadau ariannol a nodir yn Rhan 3 o'r adroddiad;
- Dirprwyo'r hawl i Aelod Cabinet Economi i bleidleisio ar ran yr Awdurdod ym mhleidlais yr AGB.
- Os yw'r bleidlais yn llwyddiannus ym Mangor, ac yn unol â Rheoliadau Ardal Gwella Busnes (Cymru) 2005, dirprwyo hawl i Benaethiaid Gwasanaethau Economi, Amgylchedd, Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyfreithiol a Chyllid i gymeradwyo'r fersiwn derfynol o'r Cytundeb Ymarferol a'r Cyntundeb Gwaelodlin a sicrhau fod y trefniadau cyfreithiol yn cael eu cwblhau'n gywir.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Rheoliadau Ardal Gwella Busnes (Cymru) 2005 yn nodi fod angen i awdurdodau lleol awdurdodi'r broses o gynnal pleidlais Ardal Gwella Busnes. Mynegwyd yn unol â chyfansoddiad y Cyngor, y Cabinet sydd yn gyfrifol am awdurdodi hyn.

Mae gan awdurdodau lleol yr hawl feto os yw'n ystyried y byddai cynigion AGB yn debygol o wrthdaro'n sylweddol gyda pholisïau presennol yn gosod baich ariannol ar drethdalwyr neu fod baich yr alldoll yn rhy uchel. Fodd bynnag, cefnogwyd y bwriad o gynnal pleidlais oherwydd bod cynnig AGB Bangor yn ymateb i heriau sydd wedi eu hadnabod gan y gymuned fusnesau ac y gallai ddenu buddsoddiadau ychwanegol i uchafu cynnig a phroffil Bangor.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 15 Rhagfyr 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 4 Ionawr 2020 |

---

**PWNC**

Eitem 10:SEFYDLU PARTNERIAETH CHWARAEON GOGLEDD CYMRU

---

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd i sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru, gyda Chyngor Conwy yn awdurdod lletyol a Chyngor Gwynedd yn ymrwymo i'r trefniadau fel un o'r partneriaid rhanbarthol.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Nodwyd yr angen am y penderfyniad er mwyn gallu symud ymlaen i sefydlu'r Bartneriaeth erbyn Ebrill 2021 gan ddechrau ar y broses recriwtio ar ei gyfer.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 15 Rhagfyr 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 4 Ionawr 2020 |

## PWNC

Eitem 11:YSGOL NEWYDD YNG NGHRICIETH - CYNYDDU CYLLIDEB CYFALAF Y PROSIECT

## PENDERFYNIAD

Cytunwyd i:

- Symud adnoddau o fewn y rhaglen gyfalaf a chynyddu'r gyllideb ar gyfer y prosiect i adeiladu Ysgol Newydd yng Nghricieth er mwyn cyfarch y costau ychwanegol sydd wedi eu hadnabod wrth gynllunio'r ysgol ar y safle ffafredig newydd yng Nghricieth, gan wireddu hynny drwy drosglwyddo £380,000 o gyllideb y Prosiect Ôl-16, sy'n rhan o Raglen Ysgolion 21ain Ganrif (Band B) er mwyn cyfarch y costau ychwanegol sydd wedi eu hadnabod wrth gynllunio'r ysgol ar safle newydd yng Nghricieth.
- Tanysgrifennu'r swm cyfalaf o £220,000 er mwyn sicrhau darpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant 30 awr fel rhan o'r Ysgol Newydd yng Nghricieth pe na bai unrhyw ffynhonnell gyllidol arall ar gael gan Lywodraeth Cymru fyddai'n cyd-fynd gydag amserlen y prosiect.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn dilyn cwblhau trafodaethau prynu tir, addasiadau i'r ffordd a chynllunio'r ysgol ar gyfer y safle mae costau ychwanegol wedi eu hadnabod sy'n golygu y bydd angen cynyddu cyllideb y prosiect os am wireddu'r gwaith ychwanegol yma.

Er mwyn galluogi cyfarch y gost ychwanegol bydd angen trosglwyddo £380,000 o gyllideb y prosiect Ôl-16 o fewn y Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif i Brosiect Ysgol Newydd yng Nghricieth.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 15 Rhagfyr 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 4 Ionawr 2020 |

**PWNC**

Eitem 12:ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL

**PENDERFYNIAD**

Nodwyd y gwaith a'r cynnydd yn 2019/20 ar y meysydd gwaith sy'n cael eu dwyn ymlaen yn rhanbarthol trwy Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gofyn bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynhyrchu a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith ac yn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae 'n briodol fod y Cabinet yn derbyn y wybodaeth am waith y Bwrdd.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 15 Rhagfyr 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 4 Ionawr 2020 |

**PWNC**

Eitem 13:LLYTHYR BLYNYDDOL AROLYGAETH GOFAL CYMRU

**PENDERFYNIAD**

Nodwyd a derbyniwyd cynnwys Llythyr Blynyddol Arolygaeth Gofal Cymru.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae rhannu dyfarniad yr AGC ar berfformiad gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor yn gyhoeddus yn arfer da mewn democratiaeth. Mae'n bwysig fod y Cyngor yn cael y cyfle i gytuno ar unrhyw ymateb neu weithrediad all fod ei angen, neu beidio, yn dilyn cyhoeddi'r llythyr.

Mae 'n briodol fod y Cabinet yn derbyn yr adroddiad ym yn ffurfiol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 15 Rhagfyr 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 4 Ionawr 2020 |

## PWNC

Eitem 14:PARATOADAU'R CYNGOR AR GYFER BREXIT

## PENDERFYNIAD

Cymeradwyo y paratoadau a wnaed.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae pawb yn ymwybodol y bydd gweledydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ar y 1 Ionawr 2021. Mae'r Cygor angen paratoi er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau a chefnogi busnesau a thrigolion y sir oddi ar 1af o Ionawr 2021.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 15 Rhagfyr 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 4 Ionawr 2020 |

**PWNC**

Eitem 15:YMGYNGHORIAD  CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU

**PENDERFYNIAD**

- Cymeradwywyd yr ateb drafft i'r Ymgynghoriad
- Dirprwyo hawl i'r Arweinydd mewn ymgynghoriad a'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Gwasnaethau Cyfreithiol i gwblhau a chyflwyno ymateb ar ran y Cyngor.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad ar gynigion i sefydlu Cyd Bwyllgorau Corfforedig mewn 4 ardal o Gymru.  Mae Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2019 yn cynnwys darpariaethau sydd yn rhoi hawl i greu Cyd Bwyllgorau Corfforedig drwy Offeryn Statudol. Mae'r ymgynghoriad presennol ar sefydlu Cyd Bwyllgorau Corfforaethol ar sail ôl Troed; Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De Orllewin Cymru a De Ddwyrain Cymru.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 15 Rhagfyr 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 4 Ionawr 2020 |

**PWNC**

Eitem 16:PREMIWM TRETH CYNGOR AR AIL GARTREFI AC EIDDO GWAG HIRDYMOR

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig i gynyddu'r Premiwm ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor i hyd at 100% ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 3 Rhagfyr 2020 penderfynodd y Cyngor ohirio penderfyniad ar y discowntiau a premiwm Treth Cyngor a gofyn Cabinet ystyried priodoldeb cynyddu y lefel i hyd at 100%. Gofywyd i'r Cabinet gynnal proses ymgynghori ar y sail yma, ystyried y ffactorau perthnasol, a dod ag argymhelliad pellach i'r Cyngor ym mis Mawrth 2021 yn unol ag Adran 12, 12B a 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992yEr mwyn cydymffurfio a'r gofynion cyfreithiol wrth ystyried cynyddu lefel y Premiwm, dylid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan y Cyng. Dyfrig Siencyn gan fod perthynas agos yn berchen eiddo sydd yn cael ei effeithio gan y Premiwm Treth Cyngor, roedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a bu iddo adael y cyfarfod ar gyfer yr eitem.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 15 Rhagfyr 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 4 Ionawr 2020 |

**PWNC**

Eitem 18:NYTH FRANWEN

**PENDERFYNIAD**

- Cefnogwyd y Cynllun 'Y Nyth' Fran Wen i ddatblygu canolfan newydd ym Mangor
- Dirprwywyd yr hawl i'r Pennaeth Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid a Phennaeth Cyfreithiol i gytuno  cytundeb ariannu gyda Cwmni Fran Wen gan gynnwys arwystl cyfreithiol neu ffurf arall o ernes os yn briodol ar gyfer gwarchod buddiannau'r Cyngor.
- Yn ddarostyngedig i (b) awdurdodwyd y Pennaeth Cyllid mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Economi a Chymuned, a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol, i arwyddo'r llythyr cynnig ariannol gan Lywodraeth Cymru .

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Llywodraeth Cymru, yn ei lythyr 23 Tachwedd 2020, yn cynnig cyfraniad ariannol o £1.2miliwn, i Fran Wen, tuag at gynllun £4.2m Nyth, sydd yn un o gynlluniau blaenoriaeth Partneriaeth Strategol Bangor. Mae'r £1.8m o arian Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ei sicrhau sydd yn ddarostyngedig i'r cymeradwyaeth hwn.

Cyn belled ag y bo modd, mae angen sicrhau buddiannau'r Cyngor drwy sefydlu cytundeb cyfreithiol gyda Fran Wen sy'n adlewyrchu ac yn ymateb i'r risgiau i'r Cyngor yn deillio o wireddu'r cynllun. Mae hefyd angen sicrhau'r cyfrifoldebau a'r risgiau sydd yn ar y Cyngor o fod yn derbyn y cyfraniad ariannol hwn

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Cyng Cemlyn Williams gan fod ei  ferch yn gweithio i gwmni Fran Wen, roedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a bu iddo adael y cyfarfod.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.